Creu Labordy Swigod

Trosolwg

Mae chwarae â swigod yn weithgaredd chwarae syml ond yn un y gellir ymgolli ynddo. Mae'n hygyrch i hyd yn oed y plant ieuaf, ac mae'n cryfhau ac yn ymgorffori sgiliau echddygol manwl a bras drwy gael hwyl!



Gweithgareddau

Paratowch gynhwysydd ac ynddo gymysgedd creu swigod, a darparwch offer megis gwialenni, rhidyllau, glanhawyr pibelli, a choets i'r plant greu swigod o wahanol siapiau a meintiau.

Mae symud o gwmpas y man dansylw'n gwneud i'r swigod ddisgleirio wrth iddynt hedfan i ffwrdd neu gael eu byrstio gan y plant. Gosodwch yr hambwrdd ar y llawr er mwyn i'r plant allu sefyll arno a defnyddio cylchyn i greu swigod enfawr o'u cwmpas.

Offer

- Cynhwysydd, e.e. hambwrdd tyff
- Cymysgedd creu swigod (gall fod yn gymysgedd o ddŵr a hylif golchi llestri)
- Offer i greu swigod – gwialenni, rhidyllau, glanhawyr pibelli, coets llyfn, cylchyn mawr

Cwestiynau allweddol

Allwch chi ddilyn siwrnai'r swigod drwy'r awyr?
Beth sy'n digwydd os byddwch yn rhoi eich bys/llaw yn y swigen?
Allwch chi symud eich corff wrth ddefnyddio eich gwialen swigod, er mwyn creu llwybr swigod?

Deilliannau dysgu

- Sgiliau echddygol manwl: gafael a chydio, cydsymud rhwng y llygaid a'r dwylo, sgiliau echddygol geneuol
- Sgiliau echddygol bras: mae profiad i'r corff cyfan yn hybu sgiliau'r cyhyrau mawr, cydbwysedd ac ymwybyddiaeth ofodol

Symud y dysgu yn ei flaen

Babanod - mae chwythu swigod o gwmpas y plentyn yn annog cydsymud rhwng y llygaid a'r dwylo wrth i'r plentyn ddilyn symudiadau'r swigod ac ymestyn i'w cyffwrdd.
Plant bach – mae chwarae â swigod yn brofiad mawr o ran sgiliau echddygol bras, wrth i'r plant symud eu cyrff i ddilyn swigod, eu byrstio a dechrau eu chwythu gan ddefnyddio offer.